# Apwyntiadau Drwy Fideo

GIG CYMRU NHS WALES

Pan fo'n briodol, gallwch gael ymgynghoriad ar-lein drwy alwad fideo.

Mae galwadau fideo mor gyfleus â galwad ffôn, gyda’r fantais ychwanegol o allu cyfathrebu wyneb yn wyneb.

Gall arbed amser ac arian i chi, ac mae'n dod â'ch gofal yn agosach at eich cartref.



Yn hytrach na theithio i'ch apwyntiad, byddwch yn mynd i mewn i ardal aros ar-lein y clinig. Hysbysir y gwasanaeth iechyd pan fyddwch yn cyrraedd, a bydd eich clinigydd yn ymuno â chi pan fydd yn barod.

Nid oes angen creu cyfrif.

Ni chaiff unrhyw wybodaeth a nodwch ei storio.

## Beth sydd ei angen arnaf i wneud galwad fideo?

- **Cysylltiad da â'r rhyngrwyd**
  Os gallwch wylio fideo ar-lein (e.e. YouTube) gallwch wneud galwad fideo
- **Ardal breifat, wedi'i goleuo'n dda, lle na fydd tarfu arnoch** yn ystod yr ymgynghoriad
- **Un o'r rhain:**
  - Porwr gwe Google Chrome ar gyfrifiadur desg neu liniadur, neu ar dabled Android neu Smartphone
  - Porwr gwe Safari ar Apple iMac, MacBook, iPad, neu iPhone
- **Gwe-gamera, seinyddion a meicroffon** eisoes wedi'u hadeiladu i mewn i liniaduron neu ddyfeisiau symudol

## A yw'n ddiogel?

**Mae galwadau fideo yn ddiogel; diogelir eich preifatrwydd.**
Mae gennych eich ystafell fideo breifat eich hun y gall clinigwyr awdurdodedig yn unig fynd iddi.

## Faint o ddata rhyngrwyd y byddaf yn ei ddefnyddio?

Dydych chi ddim yn defnyddio unrhyw ddata wrth aros i glinigydd ymuno â chi.

Mae fideo Mynychu yn Unrhyw Le yn defnyddio swm tebyg o ddata i Skype® neu FaceTime®.

## Beth yw cost galwad fideo?

**Mae'r alwad fideo am ddim**
(heblaw am eich defnydd o'r rhyngrwyd).

**Defnyddwyr ffonau clyfar a thabledi**
Os gallwch, cysylltwch â rhwydwaith Wi-fi cartref neu waith i osgoi defnyddio eich lwfans data symudol.

## Paratoi i wneud galwadau fideo

### Sicrhewch eich bod yn defnyddio un o'r porwyr gwe canlynol


**Google Chrome**
Windows 7+, Android 5.1+, MacOS 10.11+

**Apple Safari**
MacOS 10.12+, iOS 11.4+, iPadOS 13+



**1**

Ar y dudalen we hon, cliciwch ar y botwm '**Start video call**' a dilynwch y cyfarwyddiadau





**2**

Arhoswch yn eich ystafell fideo breifat eich hun



**3**

Bydd eich darparwr gofal iechyd yn eich gweld yn cyrraedd ciw'r ardal aros ...




**4**

... ac yn ymuno â chi yn eich ystafell fideo pan fydd yn barod

## Beth ddylwn ei wneud os bydd rhywbeth ddim yn gweithio?

nhs.attendanywhere.com/troubleshooting

**Statws Gwasanaeth ar hyn o bryd:**

status.nhs.attendanywhere.com

*Pwerwyd gan:*

attendanywhere®

GIG CYMRU NHS WALES